

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent
Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Cwynion ac Adolygiadau

Pwy ydyn ni

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent (Swyddfa'r Comisiynydd) yn rhoi cymorth i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau a chyfrifoldebau, sy'n cynnwys dwyn Prif Gwnstabl Gwent i gyfrif am y gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu, pennu a diweddarau cynllun heddlu a throsedd, pennu'r gyllideb a'r praecept ac ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau yng Ngwent.

Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd yw'r rheolwr data ar gyfer y wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu, oni nodir fel arall.

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd

Trwy e-bost: Commissioner@gwent.pnn.police.uk

Ar y ffôn: 01633 642200

Trwy'r post: Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent
Pencadlys yr Heddlu
Heol Tyrpeg
Croesyceiliog
Cwmbrân
NP44 2XJ

Joanne Regan yw'r Swyddog Diogelu Data. Gellir defnyddio'r manylion uchod i gysylltu â hi. Dylai pob gohebiaeth fod at sylw'r Swyddog Diogelu Data.

Pwrpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn

Pwrpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn yw rhoi gwybod i chi sut bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn delio â (prosesu) eich gwybodaeth bersonol a'ch hawliau chi mewn perthynas â'r prosesu hwnnw.

Swyddfa'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am ddelio ag unrhyw gŵynion sy'n cael eu gwneud yn uniongyrchol yn erbyn Prif Gwnstabl Heddlu Gwent.

O'r 1af Chwefror 2020 ymlaen, Swyddfa'r Comisiynydd fydd yr awdurdod priodol i ddelio ag unrhyw adolygiadau sy'n ymwneud â chwynion sydd wedi cael eu cofnodi gan Heddlu Gwent. Os byddwch yn gofyn am adolygiad, bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu rhwng Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent. I helpu Swyddfa'r Comisiynydd i ymateb i unrhyw geisiadau i adolygu cwyn gofnodedig ar ôl i Heddlu Gwent gwblhau'r ymchwiliad dechreuol, cytunwyd y bydd adolygiadau o gŵynion yn cael eu cynnal gan gwmni allanol, er mai Swyddfa'r Comisiynydd fydd yn

gyfrifol am y penderfyniad terfynol. Gan hynny, bydd angen rhannu eich gwybodaeth gyda Sancus hefyd gan mai nhw fydd yn cynnal y broses adolygu ar ein rhan.

I gael mwy o wybodaeth am Heddlu Gwent a'i Swyddog Diogelu Data, ewch i'w [gwefan](#).

Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd gyfrifoldeb statudol i fonitro sut yr ymdrinnir â chwynion a materion disgyblu yn Heddlu Gwent. Gwneir hyn drwy broses o ddewis ar hap. Dewisir cwynion o restr ddiennw a dim ond y cwynion hynny a ddewiswyd yn rhan o'r broses o ddewis ar hap a gaiff eu cyrchu drwy'r system gwyno yn ystod yr adolygiad.

Pa wybodaeth ydyn ni'n ei chasglu?

Rydym yn casglu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch chi. Gall gynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni, oedran a swydd;
- enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni, oedran a swydd unrhyw aelod o'ch teulu, ffrind neu gyfreithiwr rydych yn eu penodi i weithredu ar eich rhan;
- gwybodaeth am eich statws priodasol, perthynas agosaf, dibynyddion a phwy y dylid cysylltu â nhw mewn argyfwng;
- gwybodaeth monitro cyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, anabledd a chrefydd neu gred;
- manylion a dogfennau sy'n ymwneud â'r amgylchiadau / digwyddiad gyda Heddlu Gwent sydd wedi arwain at eich cwyn yn erbyn y Prif Gwnstabl neu at eich cais am adolygiad o'ch cwyn gofnodedig y mae Heddlu Gwent wedi delio â hi;
- unrhyw gyswllt cyfredol sydd gennych chi gyda Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd tra bod y gŵyn yn cael ei hymchwilio neu tra bod yr adolygiad yn cael ei gynnal;
- ffotograffau a allai gynnwys lluniau ohonoch chi, er enghraifft delweddau o gamerâu teledu cylch cyfyng;
- unrhyw wybodaeth arall rydych yn dewis ei rhoi i ni sy'n berthnasol i'ch cwyn.

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon mewn amrywiaeth o ffyrdd megis trwy gyfrwng e-bost, llythyr neu drwy ddefnyddio'r ffurflen cwynion ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd. Os ydych chi wedi cysylltu â Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, mae'n bosibl y bydd yn atgyfeirio eich cwyn atom ni er mwyn i ni ddelio â hi i ddechrau.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol?

Mae Adran 22 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 yn gofyn bod lluoedd heddlu'n ystyried Canllawiau Statudol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar gyfer delio â chwynion. Mae Deddf Plismona a Throsedd 2017 yn rhoi pŵer gyfreithiol i'r Comisiynydd fabwysiadu unrhyw rai o'r swyddogaethau a roddir i Brif Gwnstabl lluo heddlu mewn perthynas â chwynion. Daeth Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a

Chamymddwyn) 2020 i rym ar 1af Chwefror 2020 ac maen nhw'n cynnwys gwybodaeth ynghylch sut y dylid delio â chwynion ac adolygiadau o gŵynion sydd wedi cael eu cofnodi'n ffurfiol. Gan hynny, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Comisiynydd i brosesu eich gwybodaeth bersonol mewn perthynas â phob cwyn a wneir yn erbyn y Prif Gwnstabl a hefyd pob cais am adolygiad o gŵyn gofnodedig o'r 1af Chwefror 2020 ymlaen.

Mae'r Gorchymyn Protocol Plismona 2011 paragraff 17(n) fel y'i cyflwynwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn darparu'r ddyletswydd gyfreithiol i'r Comisiynydd fonitro pob cwyn a wnaed yn erbyn swyddogion a staff yr heddlu.

Lle rydym yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywedd, iechyd neu grefydd neu gred, gwneir hyn at ddiben monitro cyfle cyfartal neu fel rhan o'ch cwyn neu adolygiad.

Ceir gwybodaeth bellach am y broses apêl/adolygiad yma:

<https://policeconduct.gov.uk/complaints-reviews-and-appeals/reviews-and-appeals>

Rhannu eich data personol

Efallai y caiff eich gwybodaeth ei rhannu'n fewnol gyda Swyddfa'r Comisiynydd, gyda Heddlu Gwent, Sancus - sydd wedi cael eu penodi i gynnal y broses adolygu ar ein rhan, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ac unrhyw unigolyn neu sefydliad rydych wedi gofyn iddynt weithredu ar eich rhan. Dim ond staff sydd angen mynediad at eich data er mwyn ein galluogi ni i gyflawni ein dyletswyddau o ran cofnodi a delio â'ch cwyn a fydd yn cael mynediad atynt. Ni fyddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i drydydd parti ac eithrio lle mae'n angenrheidiol er mwyn datrys eich cwyn neu os yw'r gyfraith yn gofyn ein bod yn gwneud hynny.

Os caiff eich gwybodaeth bersonol ei rhannu gyda ffynhonnell allanol byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd ddiogel.

Os nad ydych am i ni rannu eich gwybodaeth bersonol gyda Heddlu Gwent, neu gyda Sancus a fydd yn prosesu adolygiadau ar ein rhan, ni fyddwn yn gallu ymchwilio ymhellach i'ch cwyn/adolygiad.

Am faint o amser ydyn ni'n cadw eich data personol?

Mae data personol yn cael eu cadw yn unol â'n polisi cadw. Mae polisi cadw gwybodaeth Swyddfa'r Comisiynydd wedi cael ei ddrafftio yn unol â chanllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar gyfer cadw cofnodion heddlu. Felly bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw am chwe blynedd o derfyn yr ymchwiliad neu chwe blynedd o ddiwedd unrhyw gosb os arweiniodd y mater at gamau disgyblu.

Gellir cadw'r cofnod y tu hwnt i chwe blynedd yn ôl disgrisiwn y Prif Weithredwr.

Pan gaiff eich gwybodaeth bersonol ei rhannu â Sancus, byddant yn ei chadw am 28 diwrnod ar ôl i'w hadroddiad o argymhelliad gael ei anfon er mwyn ymdrin ag unrhyw ymholiadau posibl.

Ni chedwir unrhyw wybodaeth bersonol gan Swyddfa'r Comisiynydd pan gynhelir y broses o ddewis ar hap.

Sut ydyn ni'n cadw eich gwybodaeth yn ddiogel?

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn ystyried bod diogelwch eich data'n fater difrifol. Mae gennym bolisiâu a rheolaethau mewnol ar waith i sicrhau nad yw eich data'n cael eu colli, eu difa, eu camddefnyddio na'u datgelu'n ddamweiniol, ac na all unrhyw weithwyr gael mynediad atynt heblaw ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau'n gywir. Mae mynediad at eich gwybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw ar y system cwynion yn gyfyngedig i'r unigolion hynny sydd ei angen a dim ond Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gwent all ddarparu'r mynediad hwnnw.

Eich hawliau o ran eich data personol

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych chi hawliau y mae angen i ni eich gwneud chi'n ymwybodol ohonynt. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich gwybodaeth.

- Eich hawl i gael mynediad at eich data
- Eich hawl i ofyn i'r sefydliad newid data anghywir neu anghyflawn
- Eich hawl i ofyn i'r sefydliad ddileu data
- Eich hawl i ofyn i'r sefydliad beidio â phrosesu eich data
- Eich hawl i wrthwynebu prosesu eich data
- Eich hawl i gludadwyedd data.

Mae mwy o wybodaeth am yr hawliau hyn yn ein hysbysiad preifatrwydd cyffredinol.

Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfredol a chywir.

Os nad ydych chi'n fodlon

Rydym yn gosod safonau uchel iawn ar gyfer casglu a defnyddio data personol yn briodol ac rydym yn cymryd unrhyw gŵynion o ddifrif. Hoffem i chi dynnu ein sylw at unrhyw achos lle rydych yn credu bod data'n cael eu defnyddio yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol. Rydym yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella hefyd. Cysylltwch â Swyddog Diogelu Data Swyddfa'r Comisiynydd i ddechrau.

Os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, gallwch gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
2il Lawr, Tŷ Churchill

Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 01625 545297

Ffacs: 029 2067 8399
E-bost: wales@ico.org.uk

Diweddarwyd 28 Chwefror 2020